**HYSBYSIAD CYNGOR SIR PENFRO (B4316, SAUNDERSFOOT) 2026 I DDARPARU NODWEDDION TAWELU TRAFFIG A CHYFLWYNO CROESFAN TWCAN; CROESFAN GYFOCHROG A CHAEL GWARED AR GROESFAN PELICAN BRESENNOL**

---

**HYSBYSIR** drwy hyn fod Cyngor Sir Penfro, drwy arfer ei bwerau o dan Adran 23 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ac Adran 90A o Ddeddf Priffyrdd 1980, yn bwriadu cyflwyno croesfan Twcan a reolir gan signalau, fel y manylir yn Atodlen 1, cyflwyno dwy groesfan gyfochrog, fel y manylir yn atodlen 2, a dileu'r groesfan Pelican bresennol, fel y manylir yn Atodlen 3.

Mae **Croesfan Twcan** wedi'i chynllunio ar gyfer cerddwyr a beicwyr ac fe'i defnyddir fel arfer wrth ymyl llwybr beicio (ni chaniateir i feicwyr groesi'r ffordd gan ddefnyddio croesfan Sebra, Croesfan Pelican na Chroesfan Pâl). Mae ganddynt yr un signalau â Chroesfannau Pelican, ond maent yn cynnwys symbol beic gwyrdd ochr yn ochr â'r dyn gwyrdd.

Mae **croesfan gyfochrog** yn fath o groesfan ffordd sy'n caniatáu i gerddwyr a beicwyr groesi ar yr un pryd, gan ddefnyddio ardaloedd croesi cyfagos ond ar wahân.

Mae'r groesfan i gerddwyr fel arfer wedi'i marcio gan stribedi llydan wedi'u paentio'n ddu a gwyn ar draws y ffordd a goleuadau ambr sy'n fflachio. **Rhaid** i fodurwyr 'ildio pan fydd rhywun wedi symud ar groesfan'. Fodd bynnag, dylai cerddwyr aros ar y palmant er mwyn diogelwch nes bod cerbydau sy'n agosáu wedi stopio.

## Atodlen 1

Byddai croesfan twcan gyda signalau yn cael ei chyflwyno ar Deras y Bragdy (B4316) Saundersfoot, gyda'r canol wedi'i leoli 12m i'r gogledd o'r gyffordd â Heol Stammers. Byddai'r groesfan yn cael ei chefnogi â marciau igam-ogam cysylltiedig, a byddai cerbydau yn cael eu gwahardd rhag stopio arnynt, a fyddai yn cael eu gosod ar y naill ochr a'r llall i'r groesfan.

## Atodlen 2

Byddai dwy groesfan gyfochrog yn cael eu cyflwyno:

i) Teras y Bragdy, gyda'r canol wedi'i leoli 15m i'r de o'r gyffordd â Heol Aberdaugleddau.

ii) Cambrian Place, gyda'r canol wedi'i leoli 15.5m i'r gogledd o'r gyffordd â Heol Aberdaugleddau a bydd yn cael ei chodi.

**Atodlen 3**

Cael gwared ar y groesfan Pelican bresennol, a leolir i'r de o gyffordd Heol Aberdaugleddau, a Theras y Bragdy

Gellir archwilio cynllun sy'n dangos lleoliad y groesfan ar-lein yn https://www.sir-benfro.gov.uk/rheoleiddio-trraffig-ffyrdd

Os hoffech wrthwynebu'r cynnig, dylech anfon y seiliau dros eich gwrthwynebiad naill ai drwy lenwi'r ffurflen adborth ar-lein, neu, yn ysgrifenedig, at yr unigolyn isod erbyn 4 Mawrth 2026. Dyfynnwch y cyfeirnod yma os gwelwch yn dda: SFOOT- P/C


Dyddiedig 11 Chwefror 2026

**Sarah Edwards**

**Pennaeth Trafnidiaeth a'r Amgylchedd**


**Cyngor Sir Penfro**

**Neuadd y Sir, Hwlffordd**




Contains Ordnance Survey data © Crown copyright and database right. Licence number 100017916

| HEALTH AND SAFETY SYMBOLS LEGEND<br>Refer to T446: Design Risk Management Schedule for more details | |
|---|---|
| ! | INDICATES A RESIDUAL RISK REQUIRING A COMPULSORY ACTION |
| i | CONVEYS INFORMATION ABOUT A RESIDUAL RISK |
| (prohibition symbol) | INDICATES A RESIDUAL RISK REQUIRING A SPECIFIC ACTION TO BE AVOIDED |
| ! (warning triangle) | WARNS OF A RESIDUAL RISK OR INFORMATION THAT IS UNUSUAL AND CANNOT BE DESIGNED OUT |
| (triangle) | INDICATES AN ENVIRONMENTAL HAZARD |




DO NOT SCALE

LOCATION PLAN
SCALE 1:5000

NOTES:

1. THIS IS A C.A.D DRAWING AND SHOULD NOT BE AMENDED BY HAND.
2. ALL DIMENSIONS ARE IN METRES UNLESS STATED OTHERWISE.
3. THIS DRAWING SHALL BE REPRODUCED IN COLOUR.
4. THIS DRAWING SHALL BE READ IN CONJUNCTION WITH THE DESIGN RISK REGISTER (DOC REF. 29339_6892-WSP-GEN-STM-RG-ZS-0001).

KEY:

——— PROPOSED ROAD MARKINGS

| REV | DATE | BY | DESCRIPTION | CHK | APP |
|---|---|---|---|---|---|
| P01 | 02/02/2026 | AP | ISSUED FOR CONSTRUCTION | CJ | AT |

DRAWING STATUS:
A - FIT FOR CONSTRUCTION

wsp
1 Capital Quarter, Tyndall St, Cardiff, CF10 4BZ, UK
T+ 44 (0) 292 076 9200
wsp.com

CLIENT:
Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

SITE/PROJECT:
SAUNDERSFOOT ACTIVE TRAVEL

TITLE:
STAMMERS ROAD AND CAMBRIAN TERRACE CROSSING AMENDMENTS

| SCALE @ A1: 1:250 | CHECKED: CJ | | APPROVED: AT |
|---|---|---|---|
| PROJECT NO: UK0029339.6892 | DESIGNED: AP | DRAWN: AP/GK | DATE: FEBRUARY 2026 |
| DRAWING No: 29339_6892-WSP-HSN-STM-DR-CH-1213 | | | REV: C02 |

© WSP UK Ltd